**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Minister for Llywodraeth Leol and Communities**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref:LF/CS/0049/13

Ann Jones
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd

29th Ionawr 2013

Diolch i chi unwaith eto am fy ngwahodd i'ch pwyllgor ar 9 Ionawr 2013 i drafod Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Gobeithio bod fy ymatebion wedi bod o gymorth i'r Pwyllgor. Codwyd nifer o faterion y cytunais i ymateb ymhellach iddynt ac ysgrifennaf yn awr i ymdrin â'r pwyntiau hynny.

1. Adolygiad o gyrff cyhoeddus gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn2)

Gofynnwyd i mi a oes gan y Comisiwn neu a ddylai fod ganddo'r gallu i newid ffiniau gweithredol y cyrff cyhoeddus hynny y gallai fod gofyn iddo adolygu eu haelodaeth o dan adran 50.

Wedi ystyried y mater hwn, credaf fod y cynnig i'r Comisiwn feddu ar y gallu i newid ffiniau gweithredol cyrff cyhoeddus y gallai fod gofyn iddo adolygu eu haelodaeth o dan adran 50 o'r Bil yn mynd yn rhy bell. Beth bynnag, mae ffiniau rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn cyd-ffinio â ffiniau'r awdurdodau lleol. Mae ffiniau cyrff eraill wedi cael eu creu am resymau gweithredol/strategol nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â ffiniau etholiadol.

2. Gwahanu cadeirydd dinesig rhag aelod llywyddol

Gofynnwyd i mi ynghylch defnydd aelod llywyddol o'r bleidlais fwrw ac a oedd angen canllawiau mewn perthynas â hyn yn achos cyngor sy'n dewis gwahanu rôl y cadeirydd rhag ei rôl ddinesig.

Yn fy marn i, ni fydd hyn yn angenrheidiol am fod paragraff 39(2) o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu yn syml "the person presiding at the meeting shall have a second or casting vote". Bydd y ddarpariaeth hon yn Neddf 1972 yn aros a byddai'n gymwys i aelod llywyddol fel y byddai i gadeirydd yn awr.

3. Costau gwefannau cynghorau tref a chymuned

Cytunais i fynd yn ôl at y Pwyllgor ynghylch sut y cafodd y costau mewn perthynas â gwefannau eu cyfrif fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol (EM).

Amcangyfrif gorau yn unig yn ôl eu natur yw'r ffigurau a ddyfynnir yn yr EM am nad yw'n hysbys yn union faint o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru y gallai fod angen iddynt brynu offer neu y gallai fod arnynt angen hyfforddiant. Mae'n wir hefyd y gallai prif gynghorau, cynghorau cyfagos ac Un Llais Cymru helpu cynghorau cymuned yn y mater hwn heb basio cost ymlaen o reidrwydd. Yn dilyn trafodaethau y mae fy swyddogion wedi'u cael â SOCITM (rheolwyr TG yr awdurdodau lleol) a'r wybodaeth sydd ar gael am gostau cynnal a chadw presennol rwyf yn hyderus mai'r ffigurau sydd yn yr EM yw'r amcangyfrif gorau ar y sail y bydd dewisiadau ar gael i unrhyw gyngor y mae angen iddo sefydlu gwefan na fydd bob amser yn gostus.

4. Grymuso'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth i adolygu tâl aelodau o gyrff cyhoeddus

Codwyd y mater ynghylch a fyddai cynnwys cyrff iechyd ymhlith y mathau o gyrff cyhoeddus a gynhwysir gan ddarpariaethau'r Bil yn dod â naws "hybrid" i'r Bil.

Bil sy'n cael effaith ar grŵp o unigolion preifat neu gategori penodol o bobl neu gorff, a hynny trwyn ymdrin ag agweddau ar bolisi cyhoeddus, yw bil hybrid. Rwyf yn fodlon na fyddai dod â Byrddau Iechyd Lleol (sy'n gyrff cyhoeddus) o fewn cwmpas y Bil yn gwneud y Bil yn Fil hybrid nac ychwaith yn peri bod y Bil yn hybrid ei natur.

5. Sefydlu cyd-bwyllgorau safonau

Dywedais wrth y Pwyllgor y byddwn, yn rhannu fy syniadau gyda chi, fel y bo'n briodol, ar beth allai gaei ei gynnwys mewn canllawiau i'r awdurdodau lleol ar sefydlu cyd-bwyllgorau safonau o dan y pwerau a ddarperir gan adran 63 o'r Bil.

Yn y Papur Gwyn o dan y teitl '*Hybu Democratiaeth Leol*', a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 7 Awst 2012, nodwyd rhai o'r manteision a allai ddeillio, yn fy marn i, o sefydlu cyd-bwyllgorau safonau. Soniais am y rhain pan ymddangosais gerbron y Pwyllgor.

Bydd y ddarpariaeth yr ydym yn ei cheisio yn galluogi'r awdurdodau lleol i sefydlu cyd-bwyllgorau safonau lle cyflwynir achos o blaid hynny. Rhagwelaf y bydd canllawiau a gyhoeddir o dan y pwerau statudol yn y Bil yn nodi manteision y dull gweithredu hwnnw fel yr ydym yn eu gweld, yn ogystal â chyngor ar faterion ymarferol megis cyfansoddiad,

swyddogaethau a gweithrediad Pwyllgorau o'r fath. Caiff manylion y canllawiau hyn eu datblygu gan ymgynghori â chyrff cynrychioliadol llywodraeth leol.

6. Rheoliadau ar swyddogaethau pwyllgorau safonau

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad am y defnydd o weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad ar gyfer rheoliadau o dan adran 63 o'r Bil sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau safonau.

Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ganllawiau yn Ionawr 2012 y dylid cadw atynt wrth ystyried dewis gweithdrefn ar gyfer gwneud Is-ddeddfwriaeth. Mae'r canllawiau'n cydnabod bod rhaid taro cydbwysedd rhwng:

- craffu gan y Cynulliad;
- defnyddio amser y Cynulliad neu amser pwyllgor;
- arwyddocâd y darpariaethau o dan sylw; a
- gwneud deddfwriaeth yn y dull mwyaf effeithlon.

Yn yr achos hwn, darperir y pŵer i sefydlu cyd-bwyllgorau safonau ar wyneb y Bil ar ffurf gwelliant i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu pwyllgorau safonau yn adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000").

Mae adran 53(11) o Ddeddf 2000 yn darparu pŵer ar wahân i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cwmpasu materion ymarferol, gan gynnwys cyfansoddiad pwyllgorau safonau, cyfnod gwasanaeth aelodau yn y swydd, mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd etc. Mae'r rheoliadau hynny'n ymdrin â materion manwl sydd, yn gwbl briodol, yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Mae adran 54(5) o Ddeddf 2000 yn darparu pŵer ar wahân i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, trwy reoliadau, mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau gan bwyllgorau safonau. Unwaith eto, materion gweithredol yw'r rhain sy'n destun y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Mae adran 63(3)(b) o'r Bil yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ddarparu y gall rheoliadau o dan adran 54(5) addasu unrhyw un o ddarpariaethau'r Rhan hon, neu unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â phwyllgor safonau neu ag unrhyw rai o swyddogaethau pwyllgor safonau lle bo'r swyddogaeth yn arferadwy gan gyd-bwyllgor. Bydd hyn yn galluogi gwelliannau i gael eu gwneud i ddatrys unrhyw faterion ymarferol annisgwyl sy'n deillio o weithredu'r ddeddfwriaeth honno mewn perthynas â chyd-bwyllgorau. Fel y cyfryw, rwyf o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn briodol. Mae'r weithdrefn negyddol, wrth gwrs, yn galluogi aelodau i ddirymu is-ddeddfwriaeth os bydd ganddynt bryderon am y ffordd y mae wedi'i llunio.

7. Hyfforddiant ar gyfer aelodau pwyllgorau penodiadau

Cytunais i roi ystyriaeth i bryderon aelodau am yr hyfforddiant sydd ar gael i aelodau etholedig sy'n eistedd ar bwyllgorau penodiadau.

Credaf fod hyn yn codi mater pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef trwy raglen datblygu aelodau CLILC, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Gofynnaf i'm swyddogion godi'r mater hwn trwy'r sianeli priodol.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth wrth helpu'r Pwyllgor i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil hwn.

**Carl Sargeant AC / AM**

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Llywodraeth Leol and Communities